## ATODLEN 2

## YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN CEISIADAU AM GANIATÅD I OLLWNG NEU FARCHNATA ORGANEDDAU A ADDASWYD YN ENETIG AC EITHRIO UWCHBLANHIGION A ADDASWYD YN ENETIG

# Rhan V

## GWYBODAETH AM FONITRO, RHEOLI, TRIN GWASTRAFF A CHYNLLUNIAU YMATEB MEWN ARGYFWNG

*Technegau monitro*

**73.** Dulliau ar gyfer olrhain yr organeddau a monitro eu heffeithiau.

**74.** Sbesiffigedd (i adnabod yr organeddau a addaswyd yn enetig ac i'w gwahaniaethu o'r rhoddwr, y derbynnydd neu, os yw'n briodol, yr organeddau rhieniol), sensitifrwydd a dibynadwyedd y technegau monitro.

**75.** Technegau ar gyfer canfod trosglwyddiad y deunydd genetig a roddwyd i organeddau eraill.

**76.** Hyd ac amlder y monitro.

*Rheoli'r gollyngiad*

**77.** Y dulliau a'r gweithdrefnau i osgoi a/neu leihau ymlediad yr organeddau a addaswyd yn enetig y tu hwnt i safle'r gollwng neu'r ardal a ddynodwyd ar gyfer eu defnyddio.

**78.** Dulliau a gweithdrefnau i amddiffyn y safle rhag ymyrraeth gan unigolion heb awdurdod.

**79.** Dulliau a gweithdrefnau i atal organeddau eraill rhag cael mynediaid i'r safle.

*Trin gwastraff*

**80.** Y math o wastraff a gynhyrchir.

**81.** Faint o wastraff a ddisgwylir.

**82.** Disgrifiad o'r driniaeth a ragwelir.

*Cynlluniau ymateb mewn argyfwng*

**83.** Y dulliau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r organeddau a addaswyd yn enetig os ydynt yn ymledu'n annisgwyl.

**84.** Dulliau, megis difodi'r organeddau a addaswyd yn enetig, ar gyfer dadhalogi'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt.

**85.** Dulliau ar gyfer gwaredu neu lanweithio planhigion, anifeiliaid, priddoedd, ac unrhyw beth arall a amlygwyd yn ystod neu ar ôl yr ymlediad.

**86.** Dulliau ar gyfer ynysu'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan yr ymlediad.

**87.** Cynlluniau ar gyfer diogelu iechyd dynol a'r amgylchedd rhag ofn y bydd effaith annymunol.